Y SENEDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 20 MEDI 2017, ym MedRus Mawr, Penbryn.

Yn bresennol: Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor (Cadeirydd); Ms Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu); Yr Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol); Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol); Yr Athro Judy Broady-Preston, Cyfarwyddwr Athrofa Datblygu Proffesiynol); Yr Athro Neil Glasser, Cyfarwyddwr ADHGS; Yr Athro Qiang Shen, Cyfarwyddwr AMFfC; Yr Athro Tim Woods, Cyfarwyddwr ACD; Dr Hywel Griffiths, Dirprwy Gadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC); Yr Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion; Dr Gordon Allison; Dr Berit Bliesemann de Guevara; Yr Athro Paul Brewer; Dr Hazel Davey; Dr Gwion Evans; Dr Christopher Finlayson; Mr Nigel Hardy; Dr David Ceri Jones; Dr Louise Marshall; Yr Athro Robert Meyrick; Dr Ola Olusanya; Yr Athro Maria Plotnikova; Dr Rachel Rahman; Dr Simon Rodway; Mrs Anne Uruska; Ms Emma Beenham, Swyddog Materion Academaidd UMAber; Mr Gwion Llwyd Williams, Llywydd UMCA; a Mr Bruce Wight, Swyddog Datblygu'r Undeb, UMAber.

Yn gweinyddu: Mrs Kim Broom, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mrs Lucy Hodson, Cyfarwyddwr Cynllunio; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol); Ms Emma Williams, Cyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion (SAACh); a Mrs Jean Jones.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Yr Athro Richard Beardsworth; Yr Athro Jo Crotty, Cyfarwyddwr ABG; Mr Tim Davies; Yr Athro Mike Gooding, Cyfarwyddwr IBERS; Ms Louise Jagger; Dr Elin Royles, Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC); a'r Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil).

1. MATERION PERSONOL A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

    1. Cafodd cynrychiolwyr etholedig y staff a'r myfyrwyr a ddechreuodd eu tymor ers cyfarfod diwethaf y Senedd eu croesawu i'w cyfarfod cyntaf yn aelodau o'r corff llywodraethu academaidd.

    2. Croesawyd Berit Bliesemann de Guevara a Dr Hywel Griffiths i'r cyfarfod yn eilyddion i gynrychioli'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol a Changen Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

2. Cydymdeimlad

    Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r Athro Emeritws D J Bowen, cyn Athro yn Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd.

2. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2017, (SEN1718-003).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN1718-004).

NODWYD

1. Y diweddariad a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

2. Addysgu i Uwchraddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth (PA) (cofnod 75)

   DERBYNIWYD

   Adroddiad gan Gyfarwyddwr yr Athrofa Datblygu Proffesiynol (SEN1718-005).

   NODWYD

   Roedd yr adroddiad yn nodi gwybodaeth am strwythur cyfredol y rhaglen. Roedd yr ail garfan o fyfyrwyr wedi dechrau ar y rhaglen y diwrnod cynt, a'r bwriad oedd cynnig rhaglen i fwy o fyfyrwyr yn y dyfodol.

5. GOHEBIAETH

Nid oedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi derbyn gohebiaeth nad oedd eisoes wedi'i ddwyn i sylw aelodau'r Senedd.

6. GRADDAU CYFFREDIN

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Bwrdd Academaidd (SEN1718-006).

NODWYD

1. Yn y cyfarfod ar 14 Mehefin 2017, penderfynodd y Senedd gymeradwyo mewn egwyddor y cynnig y dylid diwygio'r rheoliadau cyfredol er mwyn dileu'r Radd Gyffredin gyfredol i fyfyrwyr newydd o fis Medi 2018. Byddai'n cael ei disodli gan Radd Gyffredin a fydd yn ddyfarniad 300 credyd gadael/at raid i fyfyrwyr sy'n gymwys am ddyfarniad o'r fath.

2. Ar gais y Senedd, roedd y Bwrdd Academaidd wedi ystyried oblygiadau'r newid hwn yn ei gyfarfod ar 06 Medi 2017, ac roedd yr aelodau wedi argymell y dylai'r rheoliadau newydd ddod i rym i fyfyrwyr newydd o fis Medi 2018.

3. Cadarnhawyd bod yr Adran Fathemateg yn hapus gyda'r Radd Gyffredin newydd sy'n cael ei chynnig fel cymhwyster.

4. Trafododd yr aelodau argymhelliad y Bwrdd Academaidd, a thynnu sylw at y ffaith mai cymhwyster gadael/at raid fyddai'r Radd Gyffredin ac na fyddai'n cael ei hysbysebu i ddarpar-fyfyrwyr. Cadarnhawyd hefyd na fyddai'r cymhwyster gadael/at raid yn Radd Baglor Gyffredin lle nad yw myfyriwr yn pasio Blwyddyn 3 yn achos cyrsiau Meistr

Integredig. Yn y cyd-destun hwn, gofynnodd yr aelodau a oedd cyflwyno Gradd Gyffredin newydd yn golygu nad oedd angen Gradd Pasio bellach ac y gellid dileu'r cymhwyster hwnnw.

PENDERFYNWYD

5. Gwahodd y Bwrdd Academaidd i ystyried ymhellach yr ymholiadau a godwyd gan y Senedd a'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r cymhwyster Gradd Gyffredin newydd, a gwneud argymhelliad i'r Is-Ganghellor ei ystyried ar ran y Senedd (**GWEITHREDU:** Y Bwrdd Academaidd).

7. GRADD SYLFAEN

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Bwrdd Academaidd (SEN1718-007).

NODWYD

1. Yn dilyn cyflwyno Graddau Sylfaen yn y Celfyddydau (FDA) yng Ngholeg Cambria rhaid ychwanegu at Gonfensiynau Arholiadau 2017-18 i ddisgrifio'r gofynion ar gyfer symud ymlaen i fyfyrwyr sy'n dymuno symud ymlaen i astudio am radd Baglor yn y Celfyddydau (BA) a ddyfernir gan Brifysgol Aberystwyth.

2. Er bod gofynion symud ymlaen yng nghyswllt Graddau Sylfaen Gwyddoniaeth (FDSc) wedi'u disgrifio yng nghonfensiynau cyfredol y Brifysgol, ni fyddai'n addas eu cymhwyso i ofynion yr FDA oherwydd bod blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y cynlluniau hynny yng Ngholeg Cambria yr un fath â'u cynlluniau BA cytras, yn wahanol i'r cynlluniau FDSc.

3. Ystyriwyd y mater gan y Bwrdd Academaidd ar 06 Medi 2017, ac argymhellodd yr aelodau y dylai'r Senedd gymeradwyo'r cynigion i ddiwygio'r Rheoliad ar Raddau Cyntaf Modiwlar a'r Confensiynau Arholiad.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r Rheoliad ar Raddau Cychwynnol Modiwlar a'r Confensiynau Arholiad (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion).

8. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYNLLUNIO

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (SEN1718-008).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion am ddatblygiadau diweddar, gan gynnwys: ceisiadau am fynediad yn 2017; yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, ansawdd y dysgu, bodlonrwydd myfyrwyr a dangosyddion cyflogadwyedd; a ffactorau allanol, yn cynnwys newidiadau i ffioedd a chynhaliaeth israddedigion Cartref/UE, y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu, y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, ac ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru.

2. Eglurwyd fod trafodaethau yn mynd rhagddynt, yng nghyswllt y paramedrau sy'n dod i'r amlwg i'r FfRhY, ynglŷn â faint o gynnyrch y disgwylir i staff cymwys eu cyflwyno yn rhan o'r drefn.

9. CANLYNIADAU ACF 2017

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (SEN1718-009).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad ddadansoddiad o berfformiad cyffredinol y Brifysgol yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2017, a pherfformiad yr adrannau academaidd unigol yn y 27 cwestiwn. Ond, oherwydd y newidiadau yn yr Arolwg yn 2017 nid oedd bob amser yn briodol gwneud cymariaethau â chanlyniadau yn y gorffennol.

2. Roedd nifer o'r materion a nodwyd yn y canlyniadau eisoes wedi dod i'r amlwg trwy'r Holiaduron Gwerthuso Modiwl cynharach a wnaed gan y Brifysgol. Ni chafodd rhai o'r materion eu canfod yn ddigon buan i'w datrys cyn yr ACF. Roedd cynlluniau gweithredu manwl bellach yn cael eu datblygu ar lefel y Sefydliad i ymateb i'r adborth a gafwyd trwy'r ACF.

10. AMCANION ALLWEDDOL CYRAEDDADWY AC AMSERLEN FUSNES Y BWRDD ACADEMAIDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Bwrdd Academaidd (SEN1718-010).

NODWYD

1. Ar 16 Tachwedd 2016, cytunodd y Senedd ar Amcanion Allweddol Cyraeddadwy i'r Bwrdd Academaidd am flwyddyn academaidd 2016-17. Adolygwyd y cynnydd a wnaed yn achos yr amcanion hyn gan y Bwrdd Academaidd yn ei gyfarfod ar 06 Medi 2017, fel y nodwyd yn yr adroddiad. Gofynnodd rhai aelodau a oedd y cynnydd a wnaed yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol, gan nodi bod gwybodaeth fwy diweddar ar gael mewn rhai achosion.

2. Byddai Amcanion Allweddol Cyraeddadwy newydd 2017-18 yn cael eu hadolygu yng nghylch pwyllgorau mis Hydref, a'u hystyried gan y Bwrdd Academaidd ar 25 Hydref 2017 cyn eu cyflwyno i'r Senedd.

3. Hefyd, yn ei gyfarfod ar 06 Medi 2017, roedd y Bwrdd Academaidd wedi ystyried amserlen fusnes arfaethedig y Bwrdd yn ystod blwyddyn academaidd 2017-18. Cytunodd yr aelodau i argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r amserlen, yn amodol ar gadarnhau yn y cyfarfod ym mis Hydref y byddai adroddiad blynyddol Arsylwi gan Gymheiriaid yn cael ei ystyried yng nghyfarfod mis Mai.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo Amserlen Fusnes arfaethedig y Bwrdd Academaidd am 2017-18 (**GWEITHREDU:** Y Bwrdd Academaidd).

11. CYLCH GORCHWYL Y BWRDD ACADEMAIDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Bwrdd Academaidd (SEN1718-011).

NODWYD

Ar 06 Medi 2017, ystyriodd y Bwrdd Academaidd y diwygiadau a gynigiwyd i'w gylch gorchwyl, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

Cymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd i gylch gorchwyl y Bwrdd Academaidd (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

12. DIWRNOD ENCIL Y SENEDD

NODWYD

1. Cynhaliodd y Senedd ddiwrnod encil llwyddiannus ar fore'r 20 Medi 2017. Bu'r diwrnod yn gyfle i aelodau'r Senedd gael sgwrs fanwl ynglŷn â Chynllun Strategol y Brifysgol am 2018-23. Cyn y drafodaeth, cafwyd cyflwyniad gan yr Is-Ganghellor ynglŷn â pherfformiad a blaenoriaethau cyfredol y Brifysgol.

2. Byddai adborth y Senedd yn cyfrannu at ddatblygiad drafft nesaf y Cynllun Strategol, sydd i'w ystyried gan y Cyngor yn ei ddiwrnod encil ar 03 ac 04 Hydref 2017.

3. Byddai copïau o'r dogfennau a ystyriwyd yn ystod y diwrnod encil ar gael trwy SharePoint (SEN1718-020 i SEN1718-022).

13. ADRODDIAD O'R COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gadeirydd Cangen PA y CCC (SEN1718-012)

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yng nghangen PA'r CCC ers y cyfarfod diwethaf.

14. SWYDDFA'R DYFARNWR ANNIBYNNOL: LLYTHYR BLYNYDDOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Bwrdd Academaidd, yn ymgorffori Llythyr Blynyddol 2016 o Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SEN1718-013.

NODWYD

1. Amlinellai'r llythyr berfformiad PA wrth ymdrin â chwynion ac apeliadau yn ystod 2016. Cafodd y llythyr ei ystyried gan y Bwrdd Academaidd yn ei gyfarfod ar 06 Medi 2017.

2. Croesawyd y llythyr gan yr aelodau fel cadarnhad bod y drefn sydd yn ei lle bellach yn y Brifysgol yn golygu bod llai o achosion yn cael eu hanfon ymlaen i Swyddfa'r Dyfarnwr.

15. GWOBRAU ACADEMAIDD A DDYFARNWYD YN YSTOD 2016/17

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Karen Morgan, Cynorthwyydd Gweinyddol, Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion (SEN1718-014).

NODWYD

1. Dyfarnwyd nifer o wobrau academaidd ar ran y Senedd i fyfyrwyr PA ym mlwyddyn academaidd 2016-17, ar sail meini prawf a bennwyd yn flaenorol.

2. Nodwyd rhai gwallau yn yr adroddiad yn gysylltiedig â gwobrau a gofnodwyd ar ran adrannau academaidd anghywir. Byddai fersiwn ddiwygiedig o'r adroddiad yn cael ei rhoi ar SharePoint (SEN1718-023) (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

16. CYNRYCHIOLAETH AC ETHOLIADAU'R SENEDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1718-015).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad ganlyniadau'r etholiadau a gynhaliwyd ers cyfarfod diwethaf y Senedd er mwyn penodi aelodau newydd a/neu eilyddion i'r corff llywodraethu academaidd.

17. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1718-016).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Senedd:

    1. yr oedd yr aelodau wedi cymeradwyo materion trwy ohebiaeth;

    2. yr oedd yr Is-Ganghellor, fel Cadeirydd y Senedd, wedi cymeradwyo materion yn unol â darpariaethau'r Rheolau Sefydlog.

2. Y mater a gymeradwywyd gan aelodau'r Senedd trwy ohebiaeth oedd:

    1. dileu 'Arweiniad y Senedd' ar Gyflwyno'n Electronig o ganllawiau a gyhoeddir o fis Medi ymlaen.

3. Y mater a gymeradwywyd gan yr Is-Ganghellor ar ran y Senedd oedd:

    1. penodi'r Athro Neil Glasser yn eilydd i Aelod o'r Senedd ar Fwrdd Ymgynghorol Cadair Wilson mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

18. CRYNODEB O'R GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (SEN1718-017).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad grynodeb o'r risgiau arwyddocaol o'r Gofrestr Risg Corfforaethol.

19. GRANTIAU YMCHWIL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1718-018).

NODWYD

Dyfarnwyd nifer o grantiau ymchwil i aelodau staff PA ers cyfarfod diwethaf y Senedd.

20. ADRODDIADAU O BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys yr adroddiadau canlynol (SEN1718-019):

1. Y Bwrdd Academaidd) (06 Medi 2017);

2. Y Cyngor (23 Mehefin 2017).

NODWYD

3. Yr adroddiadau a dderbyniwyd oddi wrth y pwyllgorau.